

Gwybodaeth i Gleifion

Gosod Hidlydd Fena Cafa

Cyfarwyddiaeth Radioleg Glinigol

Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn egluro'r driniaeth a elwir yn gosod hidlydd fena cafa, yr hyn sy'n digwydd a'r risgiau posibl.

Nid pwrpas y daflen yw cymryd lle trafodaeth ddeallus rhyngoch chi a'ch meddyg ond gall fod yn bwynt dechreuol i drafodaeth o'r fath.

Os ydych chi'n cael gosod yr hidlydd fena cafa, yna dylech gael digon o amser i drafod y sefyllfa gyda'ch ymgynghorydd a'r radiolegydd fydd yn gosod hwn. Os ydych chi angen cael gosod yr hidlydd fena cafa fel mater o frys, yna mae'n bosibl y bydd llai o amser i drafod ond beth bynnag, **dylech gael eglurhad digonol cyn i chi arwyddo'r ffurflen gydsynio.**

Beth yw hidlydd fena cafa?

Dyfais fetel, fychan yw hidlydd fena cafa. Mae tua modfedd o hyd, mae'n hir, ac ar ffurf sbôcs ymbarél. Gosodir yr hidlydd yn y fena cafa, sef yr wythien fawr yn yr abdomen, sy'n dod â gwaed yn ôl o'r coesau a'r pelfis tuag at y galon. Os oes ceuladau gwaed yn y gwythiennau yn y coesau neu'r pelfis, gallai'r rhain symud i fyny'r fena cafa ac i mewn i'r ysgyfaint. Bydd yr hidlydd yn maglu'r ceuladau gwaed hyn ac yna eu hatal rhag mynd i mewn i'r ysgyfaint ac achosi problemau.

Pam fy mod angen hidlydd fena cafa?

Mae profion eraill a gawsoch wedi dangos bod gennych geuladau yn y gwythiennau yn eich coesau neu eich pelfis a bod risg sylweddol i'r rhain fynd i mewn i'r ysgyfaint. Yn gyffredinol, gellir trin y problemau hyn yn effeithlon gyda chyffuriau teneuo gwaed o'r enw gwrth-geulo ond, yn eich achos chi, teimlir bod angen dull arall o ddelio gyda'r ceuladau gwaed.

Pwy sydd wedi gwneud y penderfyniad?

Mae'r ymgynghorydd sy'n gyfrifol am eich achos a'r radiologydd sy'n gosod yr hidlydd fena cafa wedi trafod y sefyllfa ac yn teimlo mai hon yw'r driniaeth orau i chi. Fodd bynnag, byddwch chi hefyd yn cael y cyfle i fynegi eich barn ac os, ar ôl cael trafodaeth gyda'ch meddygon, na fyddwch chi am gael y driniaeth, yna gallwch benderfynu yn ei herbyn.

Pwy fydd yn gosod yr hidlydd fena cafa?

Meddyg wedi'i hyfforddi'n arbennig o'r enw radiologydd Mae gan radiologwyr arbenigedd penodol wrth ddefnyddio cyfarpar pelydr-x a hefyd mewn dehongli'r delweddau a gynhrychir. Mae'n rhaid iddyn nhw edrych ar y delweddau hyn wrth gyflawni'r driniaeth.

Ym mhle bydd y driniaeth yn cael ei chynnal?

Yn yr adran pelydr-x, mewn ystafell 'sgrinio' arbennig sydd wedi'i haddasu ar gyfer triniaethau arbenigol.

Sut fydda i'n paratoi ar gyfer gosod hidlydd fena cafa?

Rhaid i chi aros i mewn yn yr ysbyty. Gofynnir i chi beidio â bwyta am bedair awr cyn y driniaeth er mae'n bosibl y byddan nhw'n dweud wrthy'ch ei bod yn iawn i chi yfed ychydig o ddŵr Mae'n bosibl y byddwch chi'n cael tawelydd i leddfu'r pryder. Gofynnir i chi wisgo gŵn ysbyty. Gan fod y driniaeth fel arfer yn defnyddio'r wythien fawr yng nghesail y forddwyd, efallai y byddan nhw'n gofyn i chi eillio o gwmpas y man hwnnw.

Os bydd gennych unrhyw alergeddau, rhaid i chi ddweud wrth eich meddyg. Os ydych chi wedi adweithio i gyfrwng gwrthgyferbyniol mewnwythiennol yn y gorffennol, y lliwydd a ddefnyddir ar gyfer pelydr-x arennau a sganio CT, yna rhaid i chi hefyd ddweud hyn wrth eich meddyg.

Beth sy'n digwydd go iawn wrth osod hidlydd fena cafa?

Byddwch chi'n gorwedd ar y bwrdd pelydr-x fel arfer ar eich cefn. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi gael nodwydd mewn gwythien yn eich braich fel bod y radiologydd yn gallu rhoi tawelydd i chi neu boen laddwyr. Byddwch chi hefyd yn cael dyfais fonitro ar eich brest a'ch bys ac efallai'n cael ocsigen drwy diwbiau bach yn eich trwyn.

Bydd y radiolegydd yn cadw popeth mor ddi-haint â phosibl a bydd yn gwisgo gŵn theatr a menig llawdriniaeth. Bydd y croen wrth ymyl man rhoi'r fena cafa, cesail y forddwyd mae'n debyg, yn cael ei lanhau gydag antiseptig, ac yna, byddan nhw'n rhoi lliain theatr dros weddill eich corff.

Byddan nhw'n rhoi anaestheteg leol yn y croen a'r meinwe dyfnach dros y wythien ac yna'n rhoi nodwydd i mewn i'r wythien. Pan fydd y radiolegydd yn fodlon bod hon wedi'i gosod yn gywir, bydd gwifren arwain yn cael ei rhoi drwy'r nodwydd ac i mewn i'r wythien. Yna, tynnir y nodwydd allan a rhoddir tiwb plastig tenau o'r enw cathetr dros y wifren ac i mewn i'r wythien. Mae'r hidlydd wedi'i gysylltu i'r cathetr hwn.

Mae'r radiolegydd yn defnyddio'r cyfarpar pelydr-x i sicrhau bod y cathetr a'r wifren yn cael eu symud i'r lle cywir ac yna tynnir y wifren a gellir rhyddhau'r hidlydd o'r cathetr a'i adael yn ei le yn y fena cafa.

Yna, tynnir y cathetr a bydd y radiolegydd yn pwyso'n gadarn ar y man lle rhodddwyd ef i mewn yn y croen am ychydig funudau i atal unrhyw waedu.

A fydd hyn yn brifo?

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o anghysur yn y croen a'r meinwe dyfnach pan fyddan nhw'n rhoi'r anaestheteg leol i mewn. Ar ôl hyn, ni ddylai'r driniaeth fod yn boenus. Bydd nyrs neu aelod arall o'r staff clinigol yn sefyll wrth eich ymyl ac yn gofalu amdanoch. Os bydd y driniaeth yn anghyfforddus, yna byddan nhw'n gallu trefnu i chi gael mwy o boen laddwyr drwy'r nodwydd yn eich braich.

Byddwch chi'n effro yn ystod y driniaeth ac yn gallu dweud wrth y radiolegydd os byddwch chi'n teimlo unrhyw boen neu'n anghyfforddus mewn unrhyw ffordd arall.

Pa mor hir fydd hyn yn cymryd?

Mae sefyllfa bob claf yn wahanol ac nid yw bob amser yn hawdd rhagweld pa mor gymhleth neu hawdd fydd y driniaeth. Yn gyffredinol, bydd y driniaeth wedi'i chwblhau mewn tua hanner awr ond efallai y byddwch chi yn yr adran pelydr-x am tuag awr.

Beth sy'n digwydd wedyn?

Byddan nhw'n mynd â chi i'r ward ar droli. Bydd nyrsys y ward yn gwneud y pethau arferol fel cymryd eich pŷls a'ch pwysau gwaed i sicrhau nad oes unrhyw broblem. Byddan nhw hefyd yn edrych ar y man lle'r oedden nhw'n rhoi'r hidlydd i mewn i sicrhau nad yw'n gwaedu. Fel arfer, byddwch chi'n aros yn y gwely am ychydig oriau hyd nes i chi wella. Mae'n bosibl y cewch fynd adref ar yr un diwrnod neu'n gorfod aros yn yr ysbyty dros nos.

A oes unrhyw risg neu gymhlethdodau?

Mae gosod hidlydd fena cafa yn driniaeth ddiogel ond mae rhai risgiau a chymhlethdodau a all godi. Weithiau gellir cael clais bach o'r enw haematoma wrth y man lle rhoddwyd y nodwydd i mewn ac mae hwn yn normal. Os bydd hwn yn mynd yn glais mawr, yna mae risg o heintio ac yna bydd angen triniaeth gyda gwrthfotigau.

Yn anghyffredin iawn, gall y cathetr achosi ychydig o niwed i'r wythien ac mae'n bosibl y bydd angen llawdriniaeth i wella hyn neu driniaeth radiolegol arall. Mae posibilrwydd y bydd yr hidlydd yn achosi rhywfaint o rwystr i'r fena cafa, y wythien fawr sy'n dod â bwyd yn ôl o'r coesau i'r galon ac oherwydd hyn mae'n bosibl y bydd rhywfaint o chwydd yn y coesau. Fel gydag unrhyw ddyfais fecanyddol arall, mae hefyd posibilrwydd y bydd yr hidlydd yn methu â gweithio'n gywir. Er waethaf y cymhlethdodau posibl hyn, fel arfer mae'r driniaeth yn ddiogel ac yn cael ei chynnal heb unrhyw sgil effaith arwyddocaol o gwbl.

Yn olaf...

Dylech fod wedi cael atebion i rai o'ch cwestiynau yn y daflen hon ond cofiwch dim ond pwynt dechrau trafodaeth am eich triniaeth gyda'r meddygon sy'n gofalu amdanoch yw hyn. **Cofiwch sicrhau eich bod yn fodlon eich bod wedi cael digon o wybodaeth am y driniaeth cyn i chi arwyddo'r ffurflen gydsynio.**

Ystyrir gosod hidlydd fena cafa fel triniaeth ddiogel a luniwyd i atal cymhlethdodau difrifol a all ddatblygu o geuladau gwaed. Mae rhai risgiau bach ac er ei bod yn anodd dweud yn union pa mor aml y mae'r rhain yn digwydd, fel arfer pethau bach ydyn nhw a dydyn nhw ddim yn digwydd yn aml iawn.

I gael mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â:-

Nyrsys Radioleg Nurses ar:- 01633 493442
Adran Radioleg, Ysbyty Athrofaol Y Faenor

Addaswyd gyda diolch o ©Coleg Brenhinol Radiolegwyr, Gorffennaf 2000

Paratowyd y daflen hon gan Gymdeithas Brydeinig Radioleg Ymyriadol (BSIR) a Grŵp Cyswllt Cleifion Radioleg Glinigol (CRPLG) Coleg Brenhinol y Radiolegwyr.